Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Ar-lein

Rhagfyr 2022

1. Cefndir

Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU[1] (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 17 Mawrth 2022. Noddir y Bil gan Adran Llywodraeth y DU dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

2. Mae'r Bil wedi cwblhau'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Bil yn y Cyfnod Adrodd.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

4. Ar 30 Mawrth 2022, gosododd Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (y Dirprwy Weinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm gwreiddiol) gerbron Senedd Cymru mewn perthynas â'r Bil.[2]

5. Ym mharagraffau 13 i 17 o'r Memorandwm gwreiddiol, nododd y Dirprwy Weinidog asesiad Llywodraeth Cymru ar y pryd o'r darpariaethau yn y Bil yr oedd yn ystyried bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef cymal 175(5) a pharagraff 10 a Rhan 2 i Atodlen 1.

6. Ym mharagraff 22 o'r Memorandwm gwreiddiol, nododd y Dirprwy Weinidog safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil ar y pryd:

> *"... bydd y darpariaethau'n gwneud newidiadau ymarferol a phwysig i reoleiddio diogelwch ar-lein ledled y DU gan sicrhau hefyd nad yw'r rheoleiddio arfaethedig yn y Bil yn arwain at reoleiddio ychwanegol, diangen nac anghymesur i ddarparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru. Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad."*

[1] Y Bil Diogelwch Ar-lein, fel y'i cyflwynwyd (Bill 285 2021-22)

[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Diogelwch Ar-lein, Mawrth 2022

Crynodeb o'n hadroddiad cyntaf

7. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm gwreiddiol ar 28 Mehefin 2022 (adroddiad cyntaf).[3]

8. Mae paragraffau 16 i 18 yn ein hadroddiad cyntaf yn nodi ein hystyriaeth o'r Memorandwm gwreiddiol.

9. Ymatebodd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn ffurfiol i'n hadroddiad cyntaf ar 27 Gorffennaf 2022.[4]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

10. Ar 28 Medi 2022, gosododd Gweinidog yr Economi (y Gweinidog) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol[5] (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd mewn perthynas â chymalau a gafodd eu cynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, ond a hepgorwyd o'r Memorandwm gwreiddiol.

11. Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn wreiddiol y dylai'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 8 Rhagfyr 2022. Estynnwyd y terfyn amser hwn yn ddiweddarach i 16 Chwefror 2023.[6]

Diweddariad ar safbwynt Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Memorandwm

12. Ym mharagraffau 20 i 29 o Femorandwm Rhif 2 mae'r Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch darpariaethau'r Bil y bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer ers gosod y Memorandwm gwreiddiol gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2021, sef bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau a ganlyn yn y Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin:

- cymal 151 (Trosedd cyfathrebu niweidiol);

[3] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Ar-lein, Mehefin 2022

[4] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Gorffennaf 2022

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Diogelwch Ar-lein, Ionawr 2022

[6] Senedd Cymru, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelwch Ar-lein

- cymal 152 (Trosedd cyfathrebu ffug);
- cymal 153 (Trosedd cyfathrebu bygythiol);
- cymal 154 (Dehongli adrannau 151 i 153);
- cymal 156 (Atebolrwydd swyddogion corfforaethol).

13. Mae'r Gweinidog yn esbonio ym Memorandwm Rhif 2, fod swyddogion Llywodraeth y DU, ers gosod y Memorandwm gwreiddiol, wedi hysbysu ei swyddogion y gallai fod angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn, ac yn dilyn dadansoddiad dilynol Llywodraeth Cymru ei hun, daeth y Gweinidog i'r casgliad bod angen cydsyniad ar eu cyfer.[7]

14. Mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod Llywodraeth y DU hefyd o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn.[8]

15. Mae'r Gweinidog yn darparu rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil ym mharagraffau 31 i 33 o Femorandwm Rhif 2, ac yn cydnabod mai "Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i sicrhau rheoleiddio cyson ar ddarparwyr y rhyngrwyd a fydd yn diogelu pobl Cymru".

16. Ym mharagraff 34 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn dweud ei bod yn debygol y bydd gwelliannau'n cael eu cyflwyno i'r Bil wrth iddo barhau ar ei hynt seneddol, ac y bydd ei swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i fonitro unrhyw welliannau arfaethedig.

17. Ym mharagraff 36 o Femorandwm Rhif 2, daw'r Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:

> *"Fy marn i yw ei bod yn briodol gosod LCM mewn perthynas â chymalau 151–154 a 156 – Troseddau Cyfathrebu am y rhesymau a ddarperir ym mharagraffau 31 i 34 uchod. Felly rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei ganiatâd."*

[7]Memorandwm Rhif 2, paragraffau 18-19

[8] Memorandwm Rhif 2, paragraff 30

2. Trafodaeth y Pwyllgor

18. Trafodwyd Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 21 Tachwedd 2022.[9]

19. Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 12 Rhagfyr 2022.[10]

20. Dylid darllen yr adroddiad hwn ochr yn ochr â'n hadroddiad cyntaf.

Ein barn ni

21. Rydym yn cydnabod eglurhad y Gweinidog ynghylch pam nad oedd y darpariaethau a gafodd eu cynnwys ym Memorandwm Rhif 2, a oedd yn rhan o'r Bil pan gafodd ei gyflwyno, wedi'u cynnwys yn y Memorandwm gwreiddiol.

22. Rydym yn nodi asesiad y Gweinidog bod cymalau 151 i 154 ac 156 o'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, yn cynnwys darpariaeth sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, rydym yn nodi, ers i ni ystyried Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 21 Tachwedd, fod y Bil wedi'i ddiwygio a chafodd cymal 151 ei hepgor.[11]

Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod cymalau 151 i 154 ac 156 o'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, yn cynnwys darpariaeth sy'n dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.1(i).

23. Gan fod cymal 151 wedi'i ddileu o'r Bil, nid oes angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer.

24. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod cymal 159 ac Atodlen 14 i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin (mewn perthynas â'r diwygiadau sy'n ganlyniadol i gymalau 152 a 153), sy'n atodol i gymalau 152 a 153, hefyd yn cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Argymhelliad 1. Dylid cael cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer cymal 159 ac Atodlen 14 i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin (mewn perthynas â'r diwygiadau sy'n ganlyniadol i gymalau 152 a 153).

---

[9] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Tachwedd 2022

[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Rhagfyr 2022

[11] O fewn y Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin: mae cymal 151 yn cael ei hepgor, mae cymal 152 yn ymddangos fel cymal 156, cymal 153 fel cymal 158, cymal 154 fel cymal 159, a chymal 156 fel cymal 162. Gweler *Hansard* HL Deb. vol. 724, 5 Rhagfyr 2022, colofnau 147–9